# Cynnal gweithgareddau deintyddol teulu’r ceffyl yn dilyn gweithdrefn

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys cynnal y gweithgareddau sy'n ofynnol yn dilyn gweithdrefnau deintyddol teulu'r ceffyl. Mae'n cynnwys rhoi cyngor i'r perchennog/asiant, cwblhau cofnodion a chynnal hylendid a bioddiogelwch.

Mae'r safon hon ar gyfer technegwyr deintyddol teulu'r ceffyl. Bydd angen i ddefnyddwyr y safon sicrhau bod yr ymarfer yn adlewyrchu gwybodaeth a pholisïau diweddar, a'u bod yn gweithio o fewn cyfyngiadau eu hawdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'u profiad.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

P1 gweithio yn unol â’r Ddeddf Llawfeddygon Milfeddygol (1966) a chyfyngiadau eich awdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a’ch profiad

P2 esbonio’r driniaeth yr ydych wedi ei chyflawni yng ngheg y ceffyl i’r perchennog/asiant

P3 hysbysu’r perchennog/asiant ynghylch unrhyw broblemau neu broblemau posibl gyda deintiad y ceffyl

P4 amlinellu meysydd lle dylid cael cyngor milfeddygol

P5 os yw’r ceffyl yn debygol o fod angen ei olrhain ar unwaith, cysylltu â llawfeddyg milfeddygol arferol y ceffyl

P6 cynghori’r perchennog/asiant ar y camau gweithredu gorau cyn yr ymweliad nesaf, yn cynnwys:

P6.1 cyngor ynghylch pryd y gellir marchogaeth neu ymarfer y ceffyl nesaf

P6.2 cyngor ar gefnogaeth trwy ddatblygiad iechyd/clefyd y geg

P6.3 trefnu apwyntiadau

P6.4 arsylwadau

P6.5 atgyfeiriadau

P7 cofnodi canfyddiadau’r archwiliad a’r driniaeth a roddwyd

P8 sicrhau bod gennych gofnod o’r perchennog a’r ceffyl a’r ceidwad (os yw’n berthnasol), yn cynnwys eu manylion cyswllt

P9 gadael cofnod o’ch manylion cyswllt er mwyn i’r perchennog neu’r ceidwad allu cysylltu os oes ganddynt unrhyw ymholiadau

P10 egluro faint o daliad sydd ei angen, sut y caiff hyn ei gyfrifo a chytuno sut bydd y taliad yn cael ei wneud

P11 sicrhau bod y cwsmer yn cael derbynneb unwaith y mae'r taliad yn cael ei wneud

P12 cyfathrebu'n broffesiynol gydag eraill sy'n gysylltiedig â gofal y ceffyl yn cynnwys llawfeddyg milfeddygol arferol yr anifail neu dechnegydd deintyddol teulu'r ceffyl a darparu nodiadau lle bo angen

P13 glanhau a symud yr holl offer oddi yno

P14 ymdrin â gwastraff yn ddiogel ac yn gywir yn unol â deddfwriaeth

P15 sicrhau bod dulliau gwaith yn hybu iechyd a diogelwch a'u bod yn gyson â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol

G16 cydymffurfio â deddfwriaeth a chodau ymarfer presennol iechyd a diogelwch bob amser

P17 cynnal lefelau priodol o hylendid a bioddiogelwch drwy'r amser

P18 cynnal eich safonau a'ch moesegau proffesiynol eich hun

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

G1 gofynion y Ddeddf Llawfeddygon Milfeddygol (1966) mewn perthynas â'ch rôl a chategorïau gweithdrefnau deintyddol teulu'r ceffyl, yn cynnwys:

G1.1 Categori 1

G1.2 Categori 2

G1.3 Categori 3

G2 ôl-effeithiau tawelyddu'r ceffyl

G3 â phwy y dylid ymgynghori/hysbysu ynghylch eich gweithgareddau a'ch canfyddiadau

G4 y cyngor a'r wybodaeth y bydd angen i chi eu rhoi i berchennog/asiant y ceffyl, yn cynnwys:

G4.1 cyngor ynghylch pryd y gellir marchogaeth neu ymarfer y ceffyl nesaf

G4.2 cyngor ar gefnogaeth trwy ddatblygiad iechyd/clefyd y geg

G4.3 trefnu apwyntiadau

G.4.4 arsylwadau

G4.5 atgyfeiriadau

G5 pwysigrwydd cyfrinachedd y cleient

G6 pwysigrwydd cynnal lefelau priodol o hylendid a bioddiogelwch a sut y gellir cyflawni hyn

G7 eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol

G8 eich cyfrifoldebau ar gyfer dyletswydd gofal anifeiliaid yn unol â deddfwriaeth bresennol lles anifeiliaid

G9 eich cyfrifoldebau proffesiynol fel technegydd deintyddol teulu’r ceffyl

G10 pwysigrwydd cofnodi canfyddiadau eich archwiliad a’r driniaeth a roddwyd

P11 rôl a phwysigrwydd atgyfeirio milfeddygol a chyfathrebu rhwng y llawfeddyg milfeddygol a’r technegydd deintyddol teulu’r ceffyl

G12 y ffioedd ar gyfer y gwasanaethau a sut y caiff y rhain eu cyfrifo yn cynnwys costau a threthi a’r rheswm dros bob math o ffi

G13 sut i brosesu taliadau, ac unrhyw ffurflenni perthnasol y mae angen eu llenwi

G14 egwyddorion a deddfwriaeth yn ymwneud â diogelu data

G15 eich atebolrwydd cyfreithiol a phroffesiynol wrth weithio fel technegydd deintyddol teulu’r ceffyl a phwysigrwydd diogelwch yswiriant priodol

## Geirfa

Ceffyl
At ddiben y safon hon mae'r term ceffyl yn cynnwys asyn, mul, bastard mul, merlyn a cheffylau eraill.

Deddfwriaeth lles anifeiliaid
Cymru a Lloegr – Deddf Lles Anifeiliaid 2006
Yr Alban – Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid 2006
Gogledd Iwerddon – Deddf Lles Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon) 2011

Gweithdrefnau Deintyddol Categori 1, 2 a 3 Teulu'r Ceffyl

Gweithdrefnau Categori 1
Y gweithdrefnau hynny y gall unigolyn eu perfformio ar ôl cael hyfforddiant cydnabyddedig heb gymhwyster
au penodol.
Archwilio dannedd;
Tynnu pwyntiau enamel miniog gan ddefnyddio rhathellau llaw yn unig;
Tynnu gordyfiannau deintyddol bach (gostyngiad o 4mm ar y mwyaf) gan ddefnyddio rhathellau llaw yn unig;
Proffilio gylfinog dannedd y boch cyntaf (gostyngiad o 4mm ar y mwyaf), a ddiffiniwyd yn flaenorol fel 'ffurfio sedd y ffrwyn';
Tynnu capiau cyntaf sy'n rhydd; a
Thynnu calcwlws gorddeintgigol.

Gweithdrefnau Categori 2 (Disodli categori 2 ar ddrafft 2004)
Gweithdrefnau ychwanegol sy'n addas i'w dirprwyo i EDT sydd wedi hyfforddi a gwneud arholiad wedi ei gymeradwyo gan DEFRA:
Archwilio, gwerthuso a chofnodi annormaleddau deintyddol;
Tynnu dannedd rhydd neu ddarnau o ddannedd gyda chysylltiadau periodontol dibwys;

Dynnu dannedd blaidd heb eu disodli sydd yn y golwg yn yr ên uchaf ac isaf o dan oruchwyliaeth filfeddygol uniongyrchol a pharhaus;
Crafu lliniarol dannedd sydd wedi torri a rhai gerllaw; a'r
Defnydd o offer deintyddol peirianyddol pan fydd y rhain yn cael eu defnyddio i leihau gordyfiant a thynnu pwyntiau enamel miniog yn unig. Dylid tawelyddu ceffylau oni bai ei bod yn cael ei ystyried yn ddiogel i gynnal unrhyw weithdrefn arfaethedig heb

dawelyddu, gyda chydsyniad gwybodus llawn y perchennog.

Gweithdrefnau Categori 3

Bydd pob gweithdrefn arall ac unrhyw weithdrefnau newydd, sy'n deillio o ganlyniad i ddatblygiad gwyddonol a thechnegol, yn dod o dan gategori 3, sef y gweithdrefnau hynny sydd wedi eu cyfyngu i lawfeddygon milfeddygol cymwys sydd heb gael eu cynnig ar gyfer eu dadreoleiddio. NID yw felly'n gyfreithlon i bobl nad ydynt yn filfeddygon gyflawni'r rhain.

LANEDC7

Cynnal gweithgareddau deintyddol teulu’r ceffyl yn dilyn gweithdrefn

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Chwef 2013 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Chwef 2018 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEDC7 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Milfeddyg  para-broffesiynol |
| **Cyfres/Set** | Gweithgareddau Milfeddygol Para-broffesiynol |
| **Geiriau Allweddol** | gweithdrefnau deintyddol teulu’r ceffyl; cyngor |